**TAG UG/Uwch**

1383/01

# CYMRAEG AIL IAITH – CA3
## *(WELSH SECOND LANGUAGE)*
## DEFNYDDIO'R IAITH A BARDDONIAETH

A.M. DYDD GWENER, 11 Ionawr 2013
*A.M. FRIDAY, 11 January 2013*

2 awr
*2 hours*

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfr ateb 8 tudalen.

***ADDITIONAL MATERIALS***

*8 page answer book.*

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.
Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A ac Adran B.
Dylech dreulio **AWR** ar bob adran.

***INSTRUCTIONS FOR CANDIDATES***

*Use black ink or black ball-point pen.*
*Answer **all** questions in Section A and Section B.*
*You should spend **1 HOUR** on each section.*

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
**Ni** chaniateir defnyddio copïau o'r farddoniaeth na geiriaduron.

***INFORMATION FOR CANDIDATES***

*The number of marks allocated for each question or part-question is given in brackets.*
*Copies of the poetry and dictionaries are **not** permitted.*

ⓗ WJEC CBAC Cyf.
CJ*(W13-1383-01)

## ADRAN A

### Defnyddio'r Iaith

**1.** Lluniwch frawddegau **(un frawddeg yr un)** i ddangos yn eglur ystyr y priod-ddulliau a'r geiriau tebyg canlynol: [20]

(i) cyn bo hir

(ii) a'i wynt yn ei ddwrn

(iii) ar gael

(iv) arllwys y glaw

(v) yma ac acw

(vi) o'r golwg

(vii) mae'n dda ganddi hi

(viii) rhag ofn

(ix) glan

(x) glân

**2.** Ail-ysgrifennwch y brawddegau canlynol gan gywiro'r gwallau sydd wedi'u tanlinellu. [20]

*(a)* <u>Roedd fi</u> wedi dysgu'r gwaith.

*(b)* <u>Dweud</u> wrtho fe am y ddamwain.

*(c)* Mae <u>rhy gormod</u> o waith gen i i'w wneud.

*(ch)* Roedd y <u>tonau'n</u> uchel yn ystod y storm ar y môr.

*(d)* Clywais <u>am</u> hi gan fy ffrind.

*(dd)* Rydw i'n gwybod <u>bod</u> ti wedi gadael y coleg.

*(e)* <u>Tri blwyddyn</u> yn ôl symudodd y teulu o'r dref i'r pentref.

*(f)* <u>Dylid</u> i wybod yn well.

*(ff)* Pa <u>llyfr</u> ydych chi'n ddarllen nawr?

*(g)* Siaradodd y bechgyn am <u>ei</u> ffrind newydd.

**3.** Gan ysgrifennu'n bersonol, **disgrifiwch amser pan oeddech chi'n teimlo'n unig neu ar eich pen eich hun**.
*Ysgrifennwch tua un ochr tudalen.* [20]

Gallwch sôn am:

- ble roeddech chi
- pam roeddech chi'n unig neu ar eich pen eich hun
- sut roeddech chi'n teimlo.

Cofiwch ddisgrifio'r profiad yn ofalus. Rhoddir marciau am ysgrifennu'n gywir. Cynlluniwch eich gwaith yn ofalus cyn dechrau.

## ADRAN B

### Barddoniaeth

**4.** Darllenwch yn ofalus y penillion canlynol o'r gerdd *Gail, fu farw* gan Nesta Wyn Jones ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn:

Ei llais, mor dawel.
'Hapus? Mae'n siŵr.
Yn blentyn….'
Llais na chredai ei eiriau ei hun.

Ffug-hapusrwydd heroin,
Ac yna'i harch
Yn diflannu i dywyllwch taclus, mesuredig,
I'w llosgi.
('Fe ddowch i'm hangladd?')
Llafargan gysurlon eglwyswr
Dieithr.
Ei ffrindiau
Od
Yn ysgwyd llaw.

*(a)* Gosodwch y penillion **uchod** yn eu cyd-destun. [20]

Disgrifiwch:
- yr hyn y mae'r bardd yn ei ddweud **cyn** y penillion hyn
- yr hyn y mae'r bardd yn ei ddweud **ar ôl** y penillion hyn
- yr hyn y mae'r bardd yn ei ddweud **yn** y penillion hyn.

*(b)* Nodwch arddull y penillion **uchod**. Rhowch eich barn am effaith y technegau hyn.

Dylech nodi: [20]
- mesur y gerdd
- hyd y llinellau
- yr odl
- gwahanol dechnegau megis
  - delweddau
  - cyflythreniad
  - iaith

*(c)* Rhowch eich ymateb personol i'r gerdd hon a'i phwnc. **Peidiwch ag ailadrodd y cynnwys na thrafod yr arddull**. [20]